# Croeso i'n Canllaw Darllen er Pleser

Mae'n cynnwys crynodeb o holl brosiectau ac ymgyrchoedd yr Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen, i'ch helpu chi i hyrwyddo ac annog cariad at ddarllen ac at lyfrau.

Rydym hefyd wedi cynnwys dolenni sy'n eich arwain at syniadau ac adnoddau i'ch ysbrydoli, ac i hwyluso ymgysylltu.

Gobeithio y bydd y ffolder hefyd yn ddefnyddiol i gadw eich holl ddeunyddiau hyrwyddo darllen cysylltiedig, yn ogystal â diweddariadau am ein prosiectau ac ymgyrchoedd yn y dyfodol.

Cofiwch danysgrifio i'n cylchlythyr i ddysgu mwy am ein prosiectau, digwyddiadau a llyfrau newydd i chi a'ch myfyrwyr eu mwynhau – yn ogystal â chystadlaethau a chyfleoedd i ennill gwobrau i'ch ysgol! E-bostiwch Francesca i ymuno â'r rhestr bostio: **francesca.sciarrillo@llyfrau.cymru**

Sganiwch yma am fersiwn digidol.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Athrawon Caru Darllen

Mae'r prosiect hwn yn ymwneud yn bennaf â meithrin cariad at ddarllen ymhlith athrawon, fel y gallant deimlo yn hyderus wrth ysbrydoli eu disgyblion i wneud yr un peth.

Cynigir y cynllun peilot hwn i athrawon o Gyfnod Allweddol 2, ond gan fod y llyfrau ar y rhestr drafod yn addas ar gyfer Blynyddoedd 5 a 6, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i athrawon sydd yn dysgu yr oedran hwn.
Ar hyn o bryd, mae'r peilot hwn ar gael i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig.

## Manteision Allweddol

- Cefnogi'r amcanion sydd wrth galon Cwricwlwm i Gymru.
- Galluogi ac annog ysgolion i gofleidio ethos ysgol gyfan sy'n gosod darllen er pleser yn graidd iddo.
- Codi hyder athrawon wrth drafod ac argymell llyfrau o Gymru.
- Darparu cyfleoedd i athrawon ymgysylltu, mwynhau ac archwilio manteision darllen er pleser.
- Meithrin cariad at ddarllen a datblygu eu sgiliau empathi.

---

## Cymryd Rhan

Bydd y peilot hwn yn sefydlu tri Grŵp Darllen Athrawon rhanbarthol, gyda'r prif nod o alluogi athrawon i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder ymhellach i drafod a mwynhau llenyddiaeth – gan eu hysbrydoli i fwynhau darllen a thrafod llenyddiaeth yn y dosbarth.

Bydd yn ofynnol i'r athrawon/ysgolion hynny sy'n dymuno cymryd rhan yn y prosiect hwn ymrwymo i wreiddio darllen er pleser yn eu hamserlenni wythnosol. Er enghraifft, bydd angen iddynt ddangos eu bod wedi cynnal sesiynau darllen ar y cyd rheolaidd oddeutu 20–30 munud o hyd ar destunau dethol gyda disgyblion.

Bydd pedair sesiwn grŵp darllen ym mhob rhanbarth yn ystod blwyddyn academaidd 2023–24 er mwyn trafod y llyfrau. Bydd hwylusydd yn arwain y sesiynau ac yn annog cyfranogiad gan yr holl aelodau. Bydd costau cyflenwi ar gael er mwyn rhyddhau'r athrawon o'r ysgol, er mwyn galluogi i'r sesiynau yma ddigwydd o fewn oriau gwaith arferol yn yr wythnos.

Bydd pob ysgol sy'n cymryd rhan yn y grŵp darllen yn derbyn pecyn o lyfrau wedi'u dethol yn ofalus, yn amrywio o lyfrau ffuglen, llyfrau ffeithiol, barddoniaeth, a nofelau graffig.

## Cyswllt

Shoned Mererid Davies
shoned.davies@llyfrau.cymru

---

## Amserlen / Dyddiadau Pwysig

- 4 sesiwn grŵp darllen ym mhob rhanbarth yn ystod blwyddyn academaidd 2023–24
- 4 sesiwn grŵp darllen ym mhob rhanbarth yn ystod blwyddyn academaidd 2024–25

---

## Adnoddau Cysylltiedig

llyfrau.cymru/ysgolion/athrawon-caru-darllen/

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# GORNEST LYFRAU

Mae cyfnod peilot Grwpiau Darllen Cymru bellach wedi dod i ben ac mae'r Ornest Lyfrau wedi ei ddisodli. Prosiect blynyddol yw hwn sy'n annog darllenwyr ifanc Blynyddoedd 3 i 6 i ddarllen er pleser, trafod y llyfrau maen nhw'n eu darllen, a mwynhau paratoi fideo creadigol fel grŵp neu ddosbarth yn seiliedig ar un o'r llyfrau o'r rhestr ddarllen.

Mae'r gystadleuaeth Gornest Lyfrau yn agored i Flynyddoedd 3 i 6 fel dosbarthiadau cyfan neu grwpiau darllen.

Bydd angen i ysgolion ddewis un llyfr o'r rhestr i'w drafod ac un arall i'w gyflwyno fel hysbyseb. Cynhelir rownd sirol dan ofal y trefnwyr sirol, a bydd yr enillwyr yn mynd ymlaen i'r rownd genedlaethol yn nhymor yr haf.
Bydd yr ysgolion buddugol yn ennill tlws arbennig ynghyd ag un o'r gwobrau canlynol:

- Gwobr 1af – Gwerth £200 o lyfrau
- 2il wobr – Gwerth £150 o lyfrau
- 3edd wobr – Gwerth £100 o lyfrau

## Manteision Allweddol

- Annog plant i wirioni ar ddarllen a mwynhau llyfrau da.
- Meithrin agweddau cadarnhaol a hir dymor tuag at ddarllen.
- Cefnogi datblygiad llythrennedd emosiynol a meithrin sgiliau trafod, cyfathrebu a dadansoddi.
- Cyd-fynd â gofynion y Cwricwlwm trwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau i unigolion a grwpiau ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad.
- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o lyfrau, awduron a darlunwyr.
- Dathlu safon eithriadol ym maes llenyddiaeth plant.

## Cyswllt


Francesca Sciarrillo
francesca.sciarrillo@llyfrau.cymru


## Amserlen / Dyddiadau Pwysig

- Cofrestru gyda'ch trefnydd lleol erbyn diwedd Rhagfyr.
- Rowndiau sirol i'w cwblhau erbyn diwedd Mai.
- Rownd genedlaethol yn Aberystwyth yn ystod tymor yr haf.

## Adnoddau Cysylltiedig

Bydd pecyn o adnoddau a gweithgareddau ar ffurf PDF ar gael i ysgolion yn nhymor yr hydref.

# PODLEDIAD

Mae gan Adran Llyfrau Plant Cyngor Llyfrau Cymru bodlediad penodol ar gyfer pobl ifanc (oedran ysgolion uwchradd). Bydd gwesteion arbennig – gan gynnwys awduron a darlunwyr – yn trafod pob math o bethau sy'n ymwneud â llenyddiaeth a'r byd llyfrau i'r arddegau. Pwrpas y podlediad yw sbarduno angerdd at ddarllen ymysg pobl ifanc y tu allan i'r dosbarth, a chreu cyfle i bobl ifanc drafod ac ystyried y gwahanol swyddi sydd ar gael iddynt o fewn y diwydiant llyfrau yng Nghymru.

## Manteision Allweddol

- Annog pobl ifanc i weld llyfrau a darllen fel math o adloniant sy'n cefnogi lles, gan fynd â llenyddiaeth y tu allan i'r dosbarth.
- Sbarduno sgyrsiau difyr sy'n seiliedig ar lyfrau gan weisg yng Nghymru, ymysg pobl ifanc.
- Annog pobl ifanc i wirioni ar ddarllen a mwynhau llyfrau da.
- Meithrin agweddau cadarnhaol a hir dymor tuag at ddarllen.
- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o lyfrau, awduron a darlunwyr.
- Dathlu safon eithriadol ym maes llenyddiaeth plant.

## Cyswllt

Francesca Sciarrillo
**francesca.sciarrillo@llyfrau.cymru**


## Amserlen / Dyddiadau Pwysig

- Bydd pennod newydd yn cael ei chyhoeddi a'i hychwanegu i'n tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol a gwefan Y Pod bob tymor.

## Adnoddau Cysylltiedig

Ewch i weld ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol neu **www.ypod.cymru** i ddarganfod pob pennod o'n podlediad.

# Rheolwr Prosiectau Addysg



Mae'r Rheolwr Prosiectau Addysg yn gallu helpu athrawon a llyfrgellwyr i gadw eu bys ar y pyls, a dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am lyfrau ac adnoddau Cymraeg a Chymreig i gyd-fynd â'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Fel rhan o'r gwasanaeth rwyf yn teithio trwy Gymru gyfan yn ymweld ag ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn rhoi arddangosfa o lyfrau a deunyddiau addysgol ac i gasglu archebion. Mae'r arddangosfeydd hyn yn rhoi cyfle gwych i athrawon bori yn y llyfrau yn ogystal â chael cyngor a chymorth.

## Manteision Allweddol

- Chwilio am gyfresi darllen.
- Chwilio am lyfrau ar themâu penodol.
- Chwilio am adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm.
- Chwilio am wybodaeth am yr adnoddau mwyaf diweddar.

Mae modd gwneud hyn i gyd gan holi a chael cyngor arbenigol gennyf.

---

## Cymryd Rhan

Mae modd trefnu arddangosfa yn eich ysgol, neu gael clwstwr o ysgolion mewn un man i drafod y llyfrau a'r adnoddau diweddaraf.
Mae modd cysylltu i gael rhestrau addas wedi'u e-bostio atoch chi.
Byddaf hefyd yn mynychu cynadleddau addysg ar hyd a lled Cymru.
Os oes gennych unrhyw gwestiwn, peidiwch â bod ofn gofyn – mi wnaf fy ngorau i ddod o hyd i'r ateb i chi.



## Cyswllt

Shoned Mererid Davies
shoned.davies@llyfrau.cymru

---

## Adnoddau Cysylltiedig

Mae manylion am adnoddau athrawon ar gael gennyf i'w rhannu ar amrywiol gyfresi.



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

THE READING AGENCY **Sialens Ddarllen Yr Haf**

THE READING AGENCY **Sialens Fach Y Gaeaf**

Mae'r ymgyrch hon yn annog plant 4 i 11 oed i osod sialens ddarllen iddyn nhw'u hunain, fel nad ydynt yn darllen llai dros yr haf.

Mae'r sialens, a gyflwynir gan The Reading Agency a'i darparu gan lyfrgelloedd cyhoeddus, yn ysgogi dros 700,00 o blant Prydain i ddal ati i ddarllen er mwyn adeiladu eu sgiliau a'u hyder. Yng Nghymru mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cefnogi Sialens Ddarllen yr Haf drwy nawdd uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Bob blwyddyn mae gan Sialens Ddarllen yr Haf thema wahanol.

## Manteision Allweddol

Gallwch wneud gwahaniaeth enfawr drwy annog eich dysgwyr i gymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf, oherwydd ei bod yn:

- Gwella hyder darllen ac annibyniaeth yn sylweddol.
- Sicrhau bod dysgwyr yn barod pan ddaw'r amser i ddychwelyd i'r ysgol.
- Cynorthwyo'r pontio llwyddiannus rhwng grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol.
- Cyfrannu at gyflawniad pob disgybl, waeth beth fo'r lefel darllen.
- Annog gweithgaredd allgyrsiol ac ymgysylltiad teuluol â darllen.
- Datblygu cysylltiadau rhwng eich ysgol, y llyfrgell a'r gymuned ehangach.

## Cymryd Rhan

Gellir cofrestru i gymryd rhan yn y sialens yn bersonol trwy'r llyfrgell leol neu ar-lein trwy'r wefan sialensddarllenyrhaf.org.uk

Er mwyn cwblhau'r sialens bydd angen darllen o leiaf chwe llyfr. Gellir dewis unrhyw beth – straeon, llyfrau ffeithiol, nofelau graffig, neu wrando ar lyfrau llafar.

Wrth i'r plant gymryd rhan yn y sialens byddant yn ennill gwobrau a chymhellion fel sticeri, ac yn derbyn medal a thystysgrif os ydynt yn llwyddiannus yn cwblhau'r her.

## Cyswllt


Shoned Mererid Davies
shoned.davies@llyfrau.cymru


## Amserlen / Dyddiadau Pwysig

- Mae'r sialens yn cychwyn mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru ar ail benwythnos mis Gorffennaf fel arfer, ac yn parhau tan fis Medi.
- Gellir cael mynediad i'r wefan trwy gydol y flwyddyn, ond o fis Mehefin i fis Medi y gellir cymryd rhan yn y sialens ar-lein.

## Adnoddau Cysylltiedig

Os ydynt yn cymryd rhan trwy'r llyfrgell leol, bydd y plant yn derbyn deunyddiau swyddogol ar y thema flynyddol.

sialensddarllenyrhaf.org.uk – llwyth o ysbrydoliaeth am beth i'w ddarllen, gweithgareddau, gemau a mwy.

# Caru Darllen Ysgolion
# Schools Love Reading

**LLYFR YN ANRHEG – DISGYBL**
Fel rhan o ymgyrch Caru Darllen Ysgolion, mae pob disgybl mewn ysgol wladol yng Nghymru, sydd rhwng 3 ac 16 oed, wedi derbyn llyfr unigol i'w gadw. Mae'r ysgolion cynradd wedi derbyn cyflenwad o lyfrau am ddim i'w rhoi fel anrheg i bob un disgybl, ac mae disgyblion mewn ysgolion uwchradd wedi derbyn tocyn llyfr arbennig, gan roi'r cyfle iddyn nhw ddewis llyfr am ddim i'w gadw.

**LLYFR YN ANRHEG – YSGOL**
Yn y rhan hon o'r prosiect Caru Darllen Ysgolion, dosbarthwyd detholiad o lyfrau sy'n cyflwyno amrywiaeth, i'w defnyddio'n benodol yn yr ysgol. Cyfle gwych i atgyfnerthu'r llyfrau sydd yn llyfrgell yr ysgol, neu, os nad oes llyfrgell yn yr ysgol, cyfle gwych i sefydlu llyfrgell newydd neu ardal ddarllen.

## Manteision Allweddol

- Sbarduno cariad at ddarllen.
- Rhoi cyfle i bob un plentyn rhwng 3 ac 16 oed mewn ysgol wladol yng Nghymru gael llyfr i gadw.
- Sbarduno ysgolion i greu cornel ddarllen neu lyfrgell addas i ysgogi darllen er pleser.



## Cyswllt

Shoned Mererid Davies
shoned.davies@llyfrau.cymru

## Amserlen / Dyddiadau Pwysig

**LLYFR YN ANRHEG – DISGYBL**
- dosbarthwyd rhwng Ebrill 2022 ac Ebrill 2023

**LLYFR YN ANRHEG – YSGOL**
- dosbarthwyd rhwng Ebril 2023 a Rhagfyr 2023

## Adnoddau Cysylltiedig

Mae rhestrau darllen a blogiau ar ein gwefan i gefnogi'r prosiect llyfrau.cymru/ysgolion/caru-darllen-ysgolion/



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Tir na n-Og

GWOBRAU • AWARDS

*Cynllun Cysgodi • Shadowing Scheme*

Bwriad y cynllun cysgodi yw codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc am deitlau'r rhestr fer wrth gynnig cyfle i fwynhau darllen a thrafod y llyfrau â'u cyfoedion.

Yn 2023, roeddem yn falch o fedru cyflwyno elfen newydd i'r cynllun, sef Barn y Darllenwyr: tlws arbennig sy'n cael ei ddewis gan blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y cynllun cysgodi.

## Manteision Allweddol

- Annog darllen a mwynhau llyfrau da.
- Dathlu safon eithriadol ym maes llenyddiaeth plant a phobl ifanc.
- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o lyfrau, awduron a darlunwyr.
- Meithrin sgiliau trafod a dadansoddi.

## Cymryd Rhan

Gall ysgolion, llyfrgelloedd a grwpiau darllen eraill gofrestru i gymryd rhan yn y cynllun a bod yn feirniaid answyddogol i ddewis enillydd o blith y rhestr fer, gan ddefnyddio'r pecyn cysgodi arbennig. Mae'r pecyn cysgodi'n cynnwys crynodeb o'r llyfrau, sylwadau gan y beirniaid swyddogol, gwybodaeth am yr awduron, gemau a chardiau pleidleisio.

Ar ôl cofrestru i gymryd rhan yn y cynllun cysgodi, byddwn yn anfon un copi o lyfrau'r rhestr fer rydych yn ei chysgodi yn y post a chopi electronig o'r pecyn cysgodi atoch. Byddwn yn cydweithio â llyfrgelloedd i'w hannog i archebu digon o lyfrau er mwyn annog ysgolion i gymryd rhan yn y Cynllun Cysgodi.

Mae cyfle i'r 30 ysgol gyntaf sy'n cofrestru dderbyn pecyn o lyfrau'r Cynllun Cysgodi.

## Cyswllt

Francesca Sciarrillo
**francesca.sciarrillo@llyfrau.cymru**

## Amserlen / Dyddiadau Pwysig

- Mawrth – yn cyhoeddi'r rhestrau byr ac yn lansio'r ymgyrch manwerthu a'r cynllun cysgodi.
- Wythnos olaf cyn y Sulgwyn – angen i ysgolion bleidleisio ar gyfer categori Barn y Darllenwyr.
- Erbyn diwedd Mai / dechrau Mehefin – cyhoeddi'r enillwyr.

## Adnoddau Cysylltiedig

Pecynnau Cynradd ac Uwchradd ar gael yma **llyfrau.cymru/gwobrau/tir-na-nog/cynllun-cysgodi/**

DIWRNOD Y **LLYFR** WORLD **BOOK DAY**







DARLUNIAU GAN / ILLUSTRATED BY VIVIAN TRUONG


Dathliad blynyddol ar ddechrau mis Mawrth yw Diwrnod y Llyfr, i hyrwyddo darllen er pleser, gan gynnig cyfle i bob plentyn a pherson ifanc gael ei lyfr ei hun. Trwy ddathlu llyfrau a darllen mae Diwrnod y Llyfr yn ysbrydoli plant a theuluoedd i ystyried eu hunain yn ddarllenwyr ac i ddarllen gyda'i gilydd yn fwy rheolaidd.

Wedi'i ddynodi gan UNESCO yn ddathliad byd-eang o lyfrau a darllen, mae Diwrnod y Llyfr yn cael ei ddathlu mewn dros 100 o wledydd ledled y byd. Mae Diwrnod y Llyfr yn elusen a noddir gan National Book Tokens. Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cefnogi'r ymgyrch yng Nghymru trwy nawdd Llywodraeth Cymru.

## Manteision Allweddol

- Annog darllen er pleser a dathlu llawenydd llyfrau, awduron, darlunwyr a darllenwyr.
- Trawsnewid agweddau a newid ymddygiad trwy ddarparu cynnwys i hybu darllen er pleser.
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael dewis ei lyfr ei hun gyda'r llyfrau £1 Diwrnod y Llyfr.
- Tocyn llyfr £1 i bob plentyn gael dewis llyfr.





## Cymryd Rhan

Gall unrhyw un drefnu dathliad ar gyfer Diwrnod y Llyfr. Am ysbrydoliaeth a syniadau gwych i ddathlu darllen a chael hwyl gyda llyfrau gallwch bori drwy'r Pecyn Parti neu'r Pecyn Syniadau.

Diolch i waith National Book Tokens, ar y cyd â chyhoeddwyr a llyfrwerthwyr, mae Diwrnod y Llyfr yn dosbarthu dros 15 miliwn o docynnau llyfrau gwerth £1/€1.50 ledled y Deyrnas Unedig ac Iwerddon bob blwyddyn drwy ysgolion, meithrinfeydd, llyfrgelloedd, carchardai ac elusennau eraill. Yn ogystal, mae modd lawrlwytho'r tocyn digidol untro o wefan Diwrnod y Llyfr (**worldbookday.com**).

Gellir cyfnewid tocynnau am unrhyw lyfr £1 yn ystod ymgyrch swyddogol Diwrnod y Llyfr (gwiriwch yr union dyddiadau ar y wefan) mewn siopau llyfrau, siopau llyfrau cadwyn ac archfarchnadoedd. Mae hefyd yn bosibl eu defnyddio fel cyfraniad o £1/€1.50 tuag at unrhyw lyfr arall.

## Cyswllt

Shoned Mererid Davies
**shoned.davies@llyfrau.cymru**

## Amserlen / Dyddiadau Pwysig

- Cofrestru erbyn diwedd mis Hydref i dderbyn pecyn o adnoddau Diwrnod y Llyfr.
- Pecynnau adnoddau yn cael eu dosbarthu erbyn diwedd mis Chwefror.
- Mae Diwrnod y Llyfr yn y DU yn cael ei gynnal ddydd Iau cyntaf mis Mawrth bob blwyddyn. Gallwch hefyd ddathlu ar ddiwrnod gwahanol sydd yn gyfleus i chi fel ysgol.



## Adnoddau Cysylltiedig

- Posteri
- Pecyn syniadau a thempledi
- Cardiau Brwydro
- Mwy o adnoddau hwyliog a lliwgar yn llawn syniadau am sut i ddathlu ar **llyfrau.cymru/digwyddiadau-arbennig/diwrnod-y-llyfr/** a **worldbookday.com**
- Cyfres o lyfrau £1 yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol ar gyfer yr ymgyrch

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Grwpiau Ffocws mewn Ysgolion Uwchradd



Mae ein Swyddog Hyrwyddo Darllen, Francesca, yn gallu ymweld ag ysgolion uwchradd i gynnal grwpiau ffocws er mwyn clywed barn darllenwyr ifanc am apêl llyfrau a darllen. Yn ogystal â hyn, mae'r grwpiau ffocws yn gyfle gwych i'n helpu i ddatrys unrhyw bryderon a'n galluogi i lenwi unrhyw fylchau a amlygwyd gan y myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y grwpiau.

Mae'n gyfle amhrisiadwy i drafod ac awgrymu llyfrau posib i ddarllenwyr yn seiliedig ar eu diddordebau. O ganlyniad, bydd canfyddiadau ac adborth y grwpiau ffocws yn cael eu rhannu â'r cyhoeddwyr; bydd rhain hefyd o fudd wrth i ni yn y Cyngor Llyfrau barhau i ddatblygu prosiectau.

## Manteision Allweddol

- Cyfle i bobl ifanc rannu a mynegi eu barn a'u meddyliau am lenyddiaeth yng Nghymru heddiw a'r posibiliadau i'r dyfodol.
- Cryfhau dealltwriaeth o'r diwydiant llyfrau yng Nghymru a'r gwaith o gynhyrchu a gwerthu llyfrau.
- Rhannu gwybodaeth am gyfleoedd i weithio yn y maes llyfrau a'r gwahanol swyddi sydd ar gael i bobl sy'n mwynhau darllen neu'n teimlo'n angerddol am lenyddiaeth.
- Annog plant i wirioni ar ddarllen a mwynhau llyfrau da.
- Meithrin agweddau cadarnhaol a hir dymor tuag at ddarllen.
- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o lyfrau, awduron a darlunwyr.
- Dathlu safon eithriadol ym maes llenyddiaeth plant.



## Cyswllt


Francesca Sciarrillo
francesca.sciarrillo@llyfrau.cymru
07377170572


## Amserlen / Dyddiadau Pwysig

Ymweliadau ar gael pob tymor ysgol. Mae croeso i ysgolion uwchradd gysylltu â Francesca yn uniongyrchol trwy ebostio neu ffonio.

Bydd Cylchoedd Meithrin ledled Cymru yn derbyn rhestr arbennig o 5 llyfr addas i blant 0–5 oed bob tymor ysgol. Bydd y rhestrau yn cynnwys llyfrau apelgar a deniadol, o safon uchel, i feithrin sgiliau gweledol a llythrennedd plant bach. Dyma gyfle arbennig i godi ymwybyddiaeth teuluoedd di-Gymraeg o gyfrolau addas ac apelgar i blant dan 5 oed.

## Manteision Allweddol

- Annog babanod a phlant ifanc i wirioni ar lyfrau.
- Cefnogi datblygiad llythrennedd yn ogystal â sgiliau gwrando.
- Sicrhau cyfleoedd i blant ifanc gael eu trochi yn y Gymraeg.
- Cefnogi rhieni i fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant os nad oes ganddyn nhw ddealltwriaeth dda o'r Gymraeg.
- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o lyfrau, awduron a darlunwyr.
- Dathlu safon eithriadol ym maes llenyddiaeth plant.



## Cyswllt

Francesca Sciarrillo
francesca.sciarrillo@llyfrau.cymru

## Amserlen / Dyddiadau Pwysig

- Bydd rhestr o deitlau yn cael ei rhyddhau a'i hyrwyddo bob tymor ysgol ar gyfryngau cymdeithasol Cyngor Llyfrau Cymru a'r Cylchoedd Meithrin.

# RHYNGOM

PLETHU POBL DRWY LYFRAU

Y weledigaeth wrth wraidd y project hwn yw creu deunydd darllen er pleser i ddarllenwyr 3–16 oed fydd yn cynnig mewnwelediad i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru. Bydd hyn yn ei dro yn helpu datblygu sgiliau empathi allweddol, ac yn cyfrannu at les emosiynol a meddyliol dysgwyr, a thrwy hynny yn cefnogi pedwar diben y Cwricwlwm Newydd i Gymru.

Mae pedair rhan i'r project:

- Rhan 1: Dethol 28 o deitlau Saesneg sy'n hyrwyddo a dathlu amrywiaeth, a chyhoeddi addasiadau Cymraeg ohonynt.
- Rhan 2: Adnabod y bylchau fydd yn dal i fodoli yn y ddarpariaeth, ac ar sail hynny comisiynu a chyhoeddi llyfrau gwreiddiol yn Gymraeg a Saesneg.
- Rhan 3: Cyhoeddi adnoddau addysgol i gyd-fynd â'r 50 o lyfrau.
- Rhan 4: Anrhegu'r ysgolion, gan ddarparu copïau o'r llyfrau i bob ysgol gynradd ac ysgol uwchradd yng Nghymru.

## Cymryd Rhan


Yn greiddiol i'r weledigaeth y tu ôl i'r project oedd penodi panel o unigolion a fyddai'n cynrychioli trawstoriad o gymunedau yng Nghymru, yn bennaf i fod yn rhan o'r broses o ddethol teitlau i'w haddasu i'r Gymraeg, ond hefyd i gynnig syniadau am awduron a llyfrau gwreiddiol. I'r diben hwnnw, ymgynghorodd y Cyngor â gwahanol gymdeithasau a sefydliadau sy'n gweithio i hyrwyddo a dathlu amrywiaeth, megis BAMEd, Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL), a Hanes Pobl Dduon Cymru. Cysylltwyd hefyd ag ymarferwyr addysg ac unigolion sydd wedi bod yn llysgenhadon cryf yn eu meysydd yng Nghymru.

## Cyswllt

Delyth Ifan
**delyth.ifan@llyfrau.cymru**


## Amserlen / Dyddiadau Pwysig

- **HYDREF 2024**
  Cyhoeddi 10 llyfr gwreiddiol Cymraeg a Saesneg
- **MAWRTH 2025**
  Cyhoeddi 28 addasiad Cymraeg
- **MEHEFIN 2025**
  Cyhoeddi fersiynau print o'r adnoddau addysgol i gyd-fynd â'r addasiadau, a fersiynau digidol o'r adnoddau i gyd-fynd â'r llyfrau gwreiddiol
- **MEDI 2025**
  Pecynnu a dosbarthu copïau o'r llyfrau i ysgolion Cymru










Gydag un o bob chwe oedolyn yn dal i gael trafferth darllen, nod ymgyrch Stori Sydyn yw chwalu rhwystrau a chynnig cyfres o lyfrau byr, difyr sy'n apelio at ddarllenwyr o bob chwaeth a gallu darllen – a dim ond £1 yr un ydyn nhw. Un o brif amcanion y gyfres Stori Sydyn yw annog darllenwyr sy'n llai hyderus yn eu gallu i ddarllen i godi llyfr.

## Manteision Allweddol


- Mae Stori Sydyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau tuag at ddarllen, hyder, llythrennedd ac ymgysylltu â dysgu.
- Gwell agweddau tuag at ddarllen er pleser.
- Gwell sgiliau llythrennedd.
- Mwy o hyder wrth ddarllen.

## Cymryd Rhan

Mae'r llyfrau ar gael o lyfrgelloedd, siopau llyfrau ac ar-lein am £1 yn unig. Maent hefyd ar gael fel e-lyfrau ar **ffolio.cymru**










## Cyswllt

Delyth Ifan
**delyth.ifan@llyfrau.cymru**

## Amserlen / Dyddiadau Pwysig

- Cyhoeddir pedwar teitl newydd yn flynyddol fel rhan o gyfres Stori Sydyn, dau deitl yn Gymraeg a dau deitl yn Saesneg.

## Adnoddau Cysylltiedig

**llyfrau.cymru/cyfresi-arbennig/mwynhau-darllen/stori-sydyn/**

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# DARLLEN YN WELL

Darllen yn Well ar gyfer yr Arddegau

Cynllun ar y cyd rhwng The Reading Agency a Chyngor Llyfrau Cymru yw Darllen yn Well. Y nod yw cynorthwyo pobl a phlant i ddeall a rheoli eu hiechyd a'u lles drwy gyfrwng deunydd darllen defnyddiol.

Mae'r llyfrau i gyd wedi'u cymeradwyo gan arbenigwyr iechyd, yn ogystal â phobl sy'n byw gyda'r cyflyrau, eu perthnasau a'u gofalwyr.

Gall gweithwyr iechyd proffesiynol argymell y llyfrau, neu gallwch chi fynd i'ch llyfrgell leol a benthyg llyfr eich hun.

Yng Nghymru, mae Cyngor Llyfrau Cymru yn gweithio gyda The Reading Agency i sicrhau bod teitlau sydd ar y rhestrau llyfrau ar gael yn Gymraeg, ac mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi The Reading Agency i ddarparu Darllen yn Well ym mhob un o'r 22 awdurdod llyfrgell yng Nghymru.

## Manteision Allweddol

- Mae'r llyfrau'n darparu gwybodaeth, straeon a chyngor sydd wedi'u safoni.









## Cyswllt

darllenynwell@llyfrau.cymru

## Amserlen / Dyddiadau Pwysig

- Cafodd teitlau Cymraeg eu cyhoeddi fel rhan o'r cynllun Darllen yn Well ar gyfer dementia yn 2018, Darllen yn Well ar gyfer iechyd meddwl yn 2019, Darllen yn Well ar gyfer plant yn 2020–21, a Darllen yn Well ar gyfer yr arddegau yn 2022.
- Trwy gynllun Darllen yn Well 2023–24 bydd rhagor o lyfrau yn ymdrin â dementia yn cael eu cyhoeddi.

## Adnoddau Cysylltiedig

llyfrau.cymru/cyfresi-arbennig/iechyd-a-meddwlgarwch/darllen-yn-well/

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# GWOBR
# MARY VAUGHAN JONES
# AWARD



Sefydlwyd y wobr hon er mwyn coffáu cyfraniad sylweddol ac unigryw Mary Vaughan Jones i faes llenyddiaeth plant yng Nghymru. Cyflwynir y wobr bob tair blynedd i berson am gyfraniad arbennig i faes llyfrau plant yng Nghymru dros gyfnod o flynyddoedd.

Dyfarnwyd y wobr yn 2021 i Menna Lloyd Williams, pennaeth cyntaf Adran Llyfrau Plant Cyngor Llyfrau Cymru, am gyfraniad sydd wedi bod yn allweddol i ddatblygiad llyfrau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

## Cymryd Rhan

Gellir ystyried unrhyw un sydd wedi cyfrannu'n helaeth i'r maes llyfrau plant yn y Gymraeg dros gyfnod o flynyddoedd, boed awdur, arlunydd, llyfrwerthwr, llyfrgellydd neu swyddog.

Yn achos rhywun sydd wedi gwneud cyfraniad yn rhinwedd ei swydd yn bennaf, byddai'n ofynnol medru dangos bod y cyfraniad yn un cwbl arbennig, y tu hwnt i ofynion cyffredinol swydd gyflogedig.

Tlws Mary Vaughan Jones yw'r anrhydedd uchaf ym maes llyfrau plant yng Nghymru a dylid ei ystyried yn goron ar yrfa'r enillydd. Ni ddylid eithrio enillwyr gwobrau unigol, megis Tir na n-Og, wrth ystyried teilyngdod ar gyfer yr anrhydedd hwn.

## Cyswllt

cllc.plant@llyfrau.cymru

## Amserlen / Dyddiadau Pwysig

- Cyflwynir Tlws Mary Vaughan Jones bob tair blynedd.

## Adnoddau Cysylltiedig

llyfrau.cymru/gwobrau/gwobr-mary-v-jones/

# Blwyddlyfr Llyfrau Plant a Blwyddlyfr Pobl Ifanc

Rydym wedi curadu dewis anhygoel o lyfrau i blant ac oedolion ifanc ar gyfer ein Blwyddlyfrau; maen nhw'n cynnig toreth o gyfleoedd newydd a chyffrous i ddarllen ac yn arddangos teitlau newydd a gyhoeddwyd yng Nghymru – yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog.

O lyfrau bwrdd lliwgar i nofelau heriol ar gyfer oedolion ifanc, mae rhywbeth yma ar gyfer pob oedran a diddordeb, ynghyd â rhestr gynhwysfawr o adnoddau sydd ar gael i helpu dysgwyr ar eu taith addysgol.

Mae'r amrywiaeth yn cynnwys teitlau a gyhoeddwyd yng Nghymru gyda'n cymorth ni, ac yn adlewyrchu holl ystod gwahanol ddiddordebau a chwaeth darllenwyr ifanc. Gallwch hefyd gael mynediad atynt mewn fformat e-lyfr oddi ar y platfform digidol pwrpasol ffolio.cymru.

Mae yna, wrth gwrs, lawer mwy o lyfrau ar gael i blant ac oedolion ifanc nag a gynhwysir yn y Blwyddlyfr. Gallwn rannu gyda chi fanylion yr holl deitlau o Gymru sydd ar gael, ac mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych ddiddordeb.

## Cymryd Rhan

Cymerwch gip ar ein gwefan gwales.com lle gallwch hefyd ddod o hyd i gyfoeth o adolygiadau i'ch helpu i ddewis. Mae'r holl deitlau ar gael i'w prynu drwy eich llyfrwerthwr lleol, gyda llawer o siopau'n cynnig gwasanaeth i archebu llyfrau ar-lein a'u derbyn drwy'r post, neu wasanaeth clicio a chasglu.













## Cyswllt

cllc.plant@llyfrau.cymru

## Amserlen / Dyddiadau Pwysig

- Mae'r Blwyddlyfrau yn cael eu curadu a'u cyhoeddi'n flynyddol.

## Adnoddau Cysylltiedig

llyfrau.cymru/carudarllen/catalogau/blwyddlyfrau-llyfrau-plant/

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Cynefin

Adnodd gwerthfawr ar gyfer ysgolion, sy’n addysgu am yr ardal leol a chynefin.
Dyma fap o gyfrolau Saesneg sy’n cyfateb i ardaloedd penodol.




Sganiwch yma am fersiwn digidol

**llyfrau.cymru/map-cymru-in-english/**

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Prosiectau ar y cyd ag eraill

## Bardd Plant Cymru

Mae Bardd Plant Cymru yn rôl genedlaethol a gaiff ei dyfarnu i fardd Cymraeg bob dwy flynedd. Nod y rôl yw ysbrydoli a thanio dychymyg plant ar draws Cymru trwy weithdai a phrosiectau barddoniaeth amrywiol.
**llenyddiaethcymru.org/ein-prosiectau/bardd-plant-cymru/**

## Children's Laureate Wales

Mae'r Children's Laureate Wales yn rôl lysgenhadol genedlaethol sydd â'r nod o ysbrydoli a grymuso plant a phobl ifanc ledled Cymru drwy lenyddiaeth. Wedi'i sefydlu yn 2019, mae'r rôl yn cael ei dyfarnu bob dwy flynedd i awdur dawnus o Gymru sy'n dangos gweledigaeth ac sy'n frwd dros sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn darganfod y budd a ddaw o ymgysylltu â llenyddiaeth, o ran mwynhad a llesiant.

## Llyfrgelloedd

Gallwch ymaelodi â'ch llyfrgell leol yn rhad ac am ddim, ac yn gwbl ddidrafferth. Rydym yn cydweithio â llyfrgelloedd i hyrwyddo Gwobrau Tir na n-Og a Sialens Ddarllen yr Haf. I wybod mwy am eich llyfrgell leol ewch i **llyfrgelloedd.cymru**

## BookTrust Cymru

Mae BookTrust Cymru yn gweithio i ennyn cariad at ddarllen ymhlith plant. Trwy eu gwaith maent yn cefnogi pob teulu yng Nghymru o flwyddyn gyntaf bywyd eu plentyn hyd at ddiwedd eu blwyddyn yn y dosbarth Derbyn yn yr ysgol, gan ddechrau drwy roi rhodd o ddau lyfr BookTrust yn y pecyn Dechrau Da Babi.

## Mudiad Meithrin

Ar y cyd â'r Mudiad Meithrin rydym wedi sefydlu cynllun '5 dan 5'. Nod y cynllun yw hyrwyddo llyfrau Cymraeg a dwyieithog ymhlith teuluoedd a rhanddeiliaid y Mudiad. Mae'n gyfle gwych i ddathlu'r ystod o lyfrau arbennig sydd ar gael ar gyfer plant ifanc a'u teuluoedd wrth ddysgu geirfa Gymraeg.

## Empathy Lab

Empathy Lab yw'r sefydliad cyntaf i adeiladu empathi, llythrennedd a gweithgarwch cymdeithasol plant trwy ddefnydd systematig o lenyddiaeth o ansawdd uchel. Mae eu strategaeth yn adeiladu ar dystiolaeth wyddonol newydd sy'n dangos pŵer darllen i feithrin sgiliau empathi bywyd go iawn. Maen nhw hefyd yn credu bod empathi yn cynnig gobaith mewn byd rhanedig.

## Gwales

Chwilio am lyfr i gefnogi eich thema y tymor hwn? Defnyddiwch y 'Chwiliad Manwl' ar **gwales.com**

**Am y newyddion diweddara, dilynwch ni ar:**
**@LlyfrDaFabBooks**
**@LlyfrDaFabBooks**

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES